# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion AC(2) 04-06

### Dyddiad y cyfarfod: 6 Ebrill 2006

### Amser y cyfarfod: 9:30am – 12:10pm

### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Dwyrain De Cymru |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Irene James | Islwyn |
| Denise Idris Jones | Conwy |
| Carl Sargeant | Alyn a Glannau Dyfrdwy |
| Catherine Thomas | Llanelli |
| **Swyddogion yn Bresennol** | |
| Jeremy Colman | Yr Archwilydd Cyffredinol |
| Gillian Body | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Rob Powell | Swyddfa Archwilio Cymru |
| James Verity | Swyddfa Archwilio Cymru |
| David Powell | Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad |

| Tystion | |
|---|---|
| Syr Jon Shortridge | Yr Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Michael Harrington | Cyfarwyddwr, Y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth a Systemau Corfforaethol |

## Gwasanaeth Pwyllgor

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Kathryn Jenkins | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyno, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Jocelyn Davies a Leighton Andrews.

1.3 Datganodd Carl Sargeant fuddiant yn achos eitem 3 gan ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr, Coleg Glannau Dyfrdwy.

## Eitem 2: Cytundeb Merlin – yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i newid ei brosesau busnes drwy TGCh

## Papur: AC(2) 04-06(p1)

2.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr Jon Shortridge, Yr Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Michael Harrington, Cyfarwyddwr, Y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth a Systemau Corfforaethol.

## Pwynt gweithredu

Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar enghreifftiau o brosiectau newid a ddilynwyd dan Merlin.

Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor yn egluro paham nad oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gallu cymharu ceisiadau am fod mwy o leoliadau.

**Eitem 3: Papur i’w nodi – Adroddiad cynnydd gan ELWa ar y gwaith a wnaethpwyd gan sefydliadau addysg bellach yng Nghymru wrth ymateb i ofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995**

**Papur: AC(2) 04-06(p2)**

3.1 Eglurodd y Cadeirydd y cefndir i’r adroddiad cynnydd. Y bwriad oedd trafod yr adroddiad yn fanwl yn y cyfarfod ar 15 Mehefin.

3.2 Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr adroddiad yn dangos bod gwerth tua £13 miliwn mwy o waith yn ofynnol yn y sector er mwyn bodloni gofynion y Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995. Ei fwriad ef oedd llunio memorandwm ynghylch y mater a dod â hwnnw i’r Pwyllgor ym mis Mehefin.

**Eitem 4: Llythyr drafft oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ynghylch argymhellion y Pwyllgor yn ei adroddiad Methiant Antur Dwyryd Llyn Cyf.**

Papur: AC(2) 04-06(p3)

4.1 Eglurodd y Cadeirydd gefndir yr ohebiaeth.

4.2 Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod wedi trafod y mater â’r Ysgrifennydd Parhaol a’r disgwyl oedd y byddai’r llythyr at y Gweinidog yn rhoi’r sicrwydd angenrheidiol i’r Pwyllgor.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor y llythyr.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur: AC(2) 03-06(mins)**

5.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2006.

Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.24 (vi)

**Sesiwn Breifat**

**Eitem 6: Adroddiad Drafft y Pwyllgor Archwilio Cyllid ar gyfer Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**

Papur: AC(2) 04-06(p4)

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ei adroddiad.

**Gwasanaeth Pwyllgor**

**Ebrill 2006**